

# Adroddiad Blynyddol 2020-21: **TROSOLWG A CHRAFFU**

---



**RHONDDA CYNON TAF**





**Y Cyngorydd L. M. Adams**

## Adroddiad Blynyddol 2020-21: **Trosolwg a Chraffu Rhagair gan y Cadeirydd**

**Yn sgil y pandemig, bwriad y Cyngor oedd canolbwyntio ar ddiogelu ei drigolion a pharhau i gyflawni'i swyddogaethau allweddol. Mae swyddogaeth graffu'r Cyngor, ynghyd â'i bwyllgorau ffurfiol, wedi dysgu bod modd i Aelodau a Swyddogion weithio mewn modd hyblyg ac ymdopi'n arbennig o dda mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym. Rydyn ni wedi dysgu sut i gyflawni gwaith craffu o bell, cynnal dull hyblyg mewn perthynas â'n rhaglenni gwaith ac addasu i flaenoriaethau sy'n newid. Mae ein cydweithwyr a'n partneriaid wedi croesawu dulliau newydd o weithio ac wedi cydweithio gyda ni. O edrych ar ddeilliannau'r rhaglenni gwaith amrywiol, mae pob Pwyllgor Craffu wedi dangos bod modd i ni gyflawni gwaith craffu yn gyflym. Mae gweithio o bell wedi dangos i ni sut i symleiddio gweithdrefnau, cynnal safon a sicrhau ein bod ni'n gweithio mewn modd sy'n fwy hyblyg.**

Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn flwyddyn fyrrach na'r arfer a chafodd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ei ohirio tan fis Medi 2020. Cyn hynny, daeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn brif bwynt craffu ar gyfer pob adroddiad a diweddariad, gan estyn gwahoddiad i'r holl aelodau nad ydyn nhw'n Aelodau Gweithredol. Yn ystod yr amser yna, roedden ni wedi trafod amrywiaeth o adroddiadau sy'n ymwneud â COVID-19 yn ogystal â'r adroddiadau craffu traddodiadol, gan sicrhau nad oedden ni'n gosod unrhyw faich gormodol ar ein swyddogion a'n partneriaid sydd ynghlwm â'r broses ymateb a'r broses adfer o ran COVID-19.

Tu hwnt i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol roedd y pedwar Pwyllgor Craffu wedi ailgydio yn eu gwaith gan weithredu blaenraglen waith ofalus fyddai'n gofyn iddyn nhw nodi materion sy'n codi a mabwysiadu dull o weithredu yn ôl y drefn arferol. Mae pob un o'r Pwyllgorau Craffu wedi llwyddo i lunio darnau o waith, ynghyd â rhywfaint o waith craffu traddodiadol er mwyn ymateb i sefyllfa sy'n newid yn gyflym. Rydyn ni wedi cyflawni sawl darn o waith cyn y cam craffu sy'n golygu ein bod ni wedi gallu trafod nifer o benderfyniadau pwysig cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Rydym eisoes yn y sefyllfa orau i allu mynd i'r afael â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn enwedig o ran gwaith craffu cadarn mewn perthynas â'r adain weithredol. Rydw i'n credu ein bod ni eisoes yn cyflawni'r arfer da yma, a fydd yn ein paratoi ni ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni hefyd wedi cymryd rhan mewn sawl ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod llais craffu'n cael ei glywed yn gynnar yn y broses.

A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, rydw i'n hyderus ein bod ni wedi manteisio ar y cyfleoedd i wella ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol er budd y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**Y Cyngorydd L M Adams  
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

## Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

### Y Flwyddyn mewn Rhifau

#### **41** - Nifer y cyfarfodydd craffu a gynhaliwyd

**6** - Nifer y penderfyniadau allweddol a oedd yn destun gwaith cyn y cam craffu

**1** - Nifer y Rhybuddion o Gynnig a gafodd eu cyfeirio at y Cyngor gan y Pwyllgorau Craffu

**1** - Grŵp Llywio wedi'i sefydlu

**3** - Nifer yr ymgynghoriadau a gyfrannodd at:

**1** - Cyfarfod Galw i Mewn

**1** - Atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio

**20** - Adroddiad yn ymateb i bandemig COVID-19

# Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf



Y Cyng. L. M. Adams



Y Cyng. S. Rees-Owen



Y Cyng. S. Bradwick



Y Cyng. R. Yeo



Y Cyng. M. Powell

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:** Y Cyngorydd L M Adams

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc:** Y Cyngorydd S. Rees-Owen

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant:** Y Cyngorydd S. Bradwick

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles:** Y Cyngorydd R. Yeo

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad:** Y Cyngorydd M. Powell

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Cynnwys

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc
- Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles
- Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
- Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad
- Prif Nodau'r Pwyllgorau Craffu



**Y Cynghorydd L. M. Adams**

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Rwy'n falch fy mod i wedi bod yn Gadeirydd y **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** ar adeg mor bwysig yng nghalendr y Cyngor, wrth i waith craffu barhau i gael ei arwain gan yr aelodau mewn modd cadarn. Er i ni gydnabod bod angen i'r gwaith yma gael ei gynnal mewn modd sy'n fwy hyblyg nag erioed, roedden ni wedi dangos bod modd cynnal y gwaith mewn modd cefnogol ac adeiladol, gan graffu ar faterion sy'n effeithio ar fywydau trigolion a lle maen nhw'n byw ac yn unol â **Chylch Gorchwyl** y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer o argymhellion allweddol wedi'u cyflwyno. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y rhain yn cynorthwyo'r gwasanaeth â'i ddarpariaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion a defnyddwyr y gwasanaethau hynny yn RhCT. Mae nifer o feysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi'u trafod i'w gweld isod.

### **Gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â Chartrefi Gofal y Cyngor ar gyfer Pobl Hŷn.**

Yn ystod y flwyddyn fyrrach hon, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â sawl mater pwysig. Mae nifer o'r rhain wedi bod yn ganolbwynt hir dymor a sylweddol ers peth amser. Mae **gwaith cyn y cam craffu** yn Rhondda Cynon Taf yn rhoi cyfle i'r holl aelodau lywio gwaith datblygu meysydd polisi allweddol gan alluogi'r aelodau i weithredu fel cyfaill beirniadol cyn i'r Cabinet drafod y mater.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r dull yma wedi'i wella o ganlyniad i allu'r pwyllgorau craffu i drafod Rhaglen Waith y Cabinet. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu sydd wedi'i gyflawni â'r Uwch Garfan Arwain ac Aelodau'r Cabinet, mae modd i sylwadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gael eu cynnwys yn rhan o benderfyniadau a gwaith datblygu polisiâu.

Mae'r broses o foderneiddio Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor i Bobl Hŷn wedi bod yn un o drafodaethau allweddol y pwyllgorau craffu ers i'r Cabinet nodi'i weledigaeth ar gyfer ar gyfer y gwasanaethau i bobl hŷn yn 2018. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhan ganolog o drafodaethau'r Cyngor. Unwaith eto, cawsom gyfle i gynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas ag adborth yr ymgynghoriad ar **1 Rhagfyr 2020**.

Cytunodd y Pwyllgor Craffu y byddai'r cynigion, sy'n gofyn i gynyddu nifer y cartrefi gofal preswyl sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor i 9 ac ailddatblygu 2 gartref bellach i fodloni'r galw am lety â gofal a chymorth ychwanegol, yn datrys y galw o ran anghenion cynyddol y boblogaeth sy'n heneiddio. Roedden ni hefyd wedi cydnabod bod y broses ymgynghori drylwyr wedi gwrando ar lais a barn y preswylwyr.

**Deilliant** - Cafodd ein sylwadau a'n hadborth eu cyflwyno i'r Cabinet ar **3 Rhagfyr 2020**. Bydd y pwyllgorau craffu yn parhau i gael eu cynnwys yng nghamau pellach y broses ac yn parhau i gyfrannu at y datblygiad pwysig yma.

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Adolygiad o'r Llifogydd yn RhCT

Ym mis Chwefror 2020, cyn y pandemig, roedd ardal Rhondda Cynon Taf wedi dioddef difrod enfawr a llifogydd yn sgil Storm Dennis. Er mwyn i ni allu deall maint effaith y storm ar gymunedau RhCT, roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cynnal adolygiad i drafod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r llifogydd gyda chymorth swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner perthnasol, megis Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), er mwyn cyfrannu at fecanweithiau adrodd statudol y Cyngor (yr awdurdod rheoli perygl llifogydd) a sefydlu sesiwn ymchwiliad craffu lle cafodd aelodau lleol gyfle i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth uniongyrchol.

Yn ystod dau gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (**14 Hydref 2020, 9 Rhagfyr 2020**) a'r sesiwn ymchwiliad craffu yn ogystal â chyfnod o gasglu datganiadau ysgrifenedig a datganiadau llafar, roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi nodi sawl problem gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn sgil y datganiadau llafar ac ysgrifenedig.

**Deilliant** - Cafodd tystiolaeth sylweddol ynghyd â chrynodeb o sylwadau'r Pwyllgor eu cyflwyno i'r Cabinet ar **18 Rhagfyr 2020**. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i graffu ar drefniadau rheoli perygl llifogydd a chynllunio mewn argyfwng y Cyngor yn dilyn adolygiad mewnol y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth cyflawniad mewn perthynas â'r meysydd yma. Bydd y pwyllgor craffu yn cwblhau ei adolygiad yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

### Ymateb i ymgynghoriadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ar 18 Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Nod y Bil (sydd bellach yn Ddeddf, wedi iddo sicrhau Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021) yw diwygio a chryfhau gwaith llywodraeth leol a gwella trefniadau etholiadol. Mae'n cynnwys cynigion eang a fydd yn cael effaith sylweddol ar y Cyngor. Er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cael gwybod am gynnwys y ddeddfwriaeth arfaethedig ac effaith debygol y cynigion yma ar lywodraeth leol, mae'r Pwyllgor Craffu, gyda chymorth y Cyngor Llawn, wedi manteisio ar nifer o gyfleoedd i fynegi ei safbwynt ar y cynigion a rhannu'r sylwadau yma gyda Llywodraeth Cymru.

Yn ystod ein cyfarfod ar **13 Ionawr 2020**, roedden ni wedi ymateb i'r cynigion cyffredinol ac unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â gweithredu darpariaethau'r Bil, pa mor addas yw pwerau'r Bil er mwyn i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth a goblygiadau ariannol y Bil. Ers hynny, mae'r Pwyllgor Craffu wedi cyflwyno'i **ddatganiad sefyllfa** i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrafod rheoliadau drafft a fyddai'n cael eu llunio'n rhan o'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig a'u rhoi ar waith. Yn fwy diweddar, cawsom ddatganiad sefyllfa mewn perthynas â gofynion y Ddeddf. Mae darpariaethau 'Dod i Rym' y Ddeddf yn gymhleth, felly mae'r datganiad sefyllfa yn pennu Cynllun Gweithredu sy'n nodi manylion darpariaethau amrywiol y Ddeddf, y gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni ac sydd angen ei wneud i baratoi'r Cyngor ar gyfer y ddarpariaeth amrywiol yma.

**Deilliant** - Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i dderbyn gwybodaeth bellach am ofynion y Ddeddf ac yn benodol rôl swyddogion craffu yn y dyfodol.

### Cyfarfod Galw i Mewn - Galw Penderfyniad Dirprwyedig gan Swyddog Allweddol i Mewn: Gwerthu tir sy'n rhan o Safle Hen Lofa Lady Windsor, Ynysybwl

Yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod **galw i mewn** yn gofyn bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod penderfyniad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a gafodd ei gyhoeddi ar 30 Gorffennaf, mewn perthynas â gwerthu tir sy'n rhan o Safle Hen Lofa Lady Windsor, Ynysybwl. Ar 12 Awst 2020, trafododd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan dri llofnodwr y cais galw i mewn, aelodau'r cyhoedd a Chyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor.

**Deilliant** - Penderfynodd y Pwyllgor gyfeirio'r mater yn ôl i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, sef Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, er mwyn trafod y mater ymhellach.



# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

Mae rhaglen waith ehangach y Pwyllgor wedi parhau i herio a chraffu ar sut mae gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu, gan gynnwys llunio cynllun adfer y Cyngor yn dilyn y cyfyngiadau symud cychwynnol yn 2020. Mae nifer o feysydd gwaith y Cyngor wedi cael sylw penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys sut mae'r Cyngor yn ceisio hyrwyddo materion cydraddoldeb a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol.

O ganlyniad i'r gwaith yma, y mae gofyn i ni ei gyflawni, ac o ganlyniad i drefniadau rhithwir a'r heriau y mae Swyddogion y Cyngor wedi'u hwynebu, roedd angen i'r Cyngor ddod â nifer o feysydd gwasanaeth i ben dros dro yn ystod y flwyddyn fyrrach hon. Byddwn ni'n ceisio ailgydio yn y gwasanaethau yma yn rhan o flwyddyn 2021/22 y Cyngor.

Hoffwn i ddiolch i Is-gadeirydd y Pwyllgor, Y Cyngorydd Wendy Lewis, ac aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am eu cefnogaeth barhaus a'u gwaith caled.

Cliciwch yma i weld pob Cyfarfod Craffu **Ar-lein**.

Roedd gwaith arall y **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU** yn cynnwys:

- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20
- Cynllun adborth cwsmeriaid - Rhoi Sylwadau, Canmol A Chwyno - Adroddiad Blynyddol 2019/20
- Cynnydd Cyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (cydbwyllgor)
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Drafft i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs)
- Gweithdrefn Asesu Risg - Diogelwch Tân y Cyngor
- Trefniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl
- Trafodaeth am Raglen Waith y Cabinet ar gyfer y Dyfodol
- Grŵp Llywio'r Aelodau - Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

## **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu**

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn parhau i gwrdd i sicrhau bod y pwyllgorau gwahanol yn cydweithio, er mwyn goruchwyllo blaenraglenni gwaith a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Mae'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion hefyd wedi cynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd â'u Prif Swyddogion Craffu ac Aelodau'r Cabinet i drafod blaenraglenni gwaith ac i sicrhau dealltwriaeth gadarn o waith ei gilydd.

Hoffwn roi sylw i ddiwydrwydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pedwar Pwyllgor Craffu sydd wedi cyflawni swm mawr o waith craffu eleni ac am barhau i gyflawni gwaith yn gyflym gan ystyried yr amodau rhithwir.



**Y Cyngorydd S. Rees-Owen**

## **Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc**

Roedd ymateb y Cyngor i bandemig COVID-19 mewn perthynas ag Addysg a'r Gwasanaethau i Blant yn rhan allweddol o waith y **Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc** ar gyfer 2020/21. Y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc oedd y pwyllgor craffu thematig cyntaf i gyflawni rhaglen waith er mwyn iddo graffu a herio ymateb y Cyngor i bandemig COVID-19 o safbwynt addysg a'r gwasanaethau i blant ac yn unol â'i **gylch gorchwyl**.

### **Addysg a Gwasanaethau i Blant (COVID-19)**

Cafodd yr ymateb cyntaf i COVID-19, o safbwynt addysg, ei gyflwyno ar **22 Gorffennaf 2020** wrth i ni archwilio camau gweithredu hanfodol y gwasanaeth ers mis Mawrth 2020 a'r gwaith paratoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Rydyn ni'n ddiolchgar am y dystiolaeth fanwl y mae'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi'i darparu i ni'n gyson. Roedd hyn wedi galluogi'r pwyllgor i ymgysylltu â'r materion newidiol yma mewn modd effeithlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ers dechrau blwyddyn y Cyngor eleni, rydyn ni wedi blaenoriaethu craffu ar ymateb y Gwasanaethau i Blant o ran cefnogi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn Rhondda Cynon Taf yn ystod y pandemig. Roedden ni wedi cynnal gwaith craffu mewn perthynas â sut roedd y gwasanaeth, yn unol â chyfarwyddyd statudol Llywodraeth Cymru, wedi parhau i ddarparu gwasanaethau, megis cymorth i deuluoedd, dyletswyddau diogelu, gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a throseddau ieuencid.

Rydyn ni wedi derbyn sawl **adroddiad ar y cyd** gan y ddwy Gyfarwyddiaeth, sy'n nodi amlinelliad o'r cymorth sydd ar gael i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol disgyblion, staff a theuluoedd ledled RhCT o ganlyniad i COVID-19. Rydyn ni wedi craffu ar waith pob maes gwasanaeth i sicrhau eu bod nhw'n addasu i ymateb i heriau newydd a heriau sy'n dod i'r amlwg, gan ganolbwyntio ar fodolau ataliol a chynaliadwy o ran darparu gwasanaeth ac sy'n effeithiol ac effeithlon o ran sicrhau lles ein pobl ifainc.

Yn fwy diweddar, ac yn sicr wrth i'r cyfyngiadau symud llacio, rydyn ni wedi dechrau canolbwyntio ar yr heriau y mae'r meysydd gwasanaeth yn eu hwynebu wrth iddyn nhw fynd ati i ddatblygu'u cynlluniau adfer.

**Deilliant** - Bydd y Pwyllgor yn mynd ati i graffu ar addasiadau o ran darparu gwasanaeth wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg yn sgil lefelau rhybudd cenedlaethol ac rydyn ni wedi ymrwymo i **dderbyn diweddariadau addysg bob tymor** i sicrhau ein bod ni'n effro i'r wybodaeth ddiweddaraf.

## Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

### Craffu ar waith Consortiwm Canolbarth y De

Yn unol â'n cylch gorchwyl, rydyn ni'n parhau i herio **Consortiwm Canolbarth y De** mewn perthynas â'r dull o ddatblygu system wedi'i harwain gan yr ysgolion ac i ddarparu tystiolaeth sy'n profi bod Consortiwm Canolbarth y De yn cynnig gwerth am arian ac i ddangos effaith ac effeithlonrwydd y Consortiwm. Roedd y Pwyllgor wedi dal Consortiwm Canolbarth y De i gyfrif am y cymorth a roddodd i'r ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud, a hefyd am ei drefniadau asesu a gwerthuso a'i drefniadau atebolrwydd sy'n cefnogi system hunanwella.

**Deilliant** - Rydyn ni'n cynnig ein bod ni'n parhau i gynnal ein gwaith herio cadarn mewn perthynas â Chonsortiwm Canolbarth y De yn rheolaidd.

### Rhybudd o Gynnig - Gofal gan Berthynas

Croesawon ni **Rhybudd o Gynnig** mewn perthynas â gofal gan berthynas a gafodd ei gyfeirio at ein Pwyllgor gan y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2020.

Yn dilyn ein cyfarfod ar **13 Ionawr 2021**, ac yn rhan o drafodaeth gyda chynigydd ac eilydd y Rhybudd o Gynnig, mae'r pwyllgor yn cynnig ei fod yn craffu ar ganlyniadau arolwg i gynhalwyr a chynhalwyr sy'n berthynas er mwyn asesu'u hanghenion. Byddwn ni'n gwahodd cynrychiolwyr o sefydliad 'Grandparents Plus' sy'n gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i wella'r cymorth sydd ar gael i ffrindiau a theuluoedd ledled Rhondda Cynon Taf.

**Deilliant** - Byddwn ni'n cyflwyno'n hargymhellion maes o law.

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Mater wedi'i atgyfeirio gan y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

Daeth **atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio** i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn dilyn pryderon a godwyd mewn perthynas â nifer uchel o absenoldebau heb eu hawdurdodi ymhlith plant o oedran ysgol statudol a chyfraddau presenoldeb ym maes addysg Ôl-16. Mae data presenoldeb a gwaharddiadau, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r Strategaeth Presenoldeb yn cael eu cyflwyno'n gyson i'r pwyllgor craffu.

**Deilliant** - Yn dilyn gwaith craffu manwl mewn perthynas â'r wybodaeth, roedden ni wedi cynnig bod archwiliad ynghylch addysg Ôl-16 yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn newydd. Byddwn ni'n cyflwyno'n hargymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth bellach i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn rhan o'n blaenraglen waith ar gyfer 2021/22.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Aelodau wedi parhau i herio ystod o feysydd eraill megis sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i ddarpariaeth dysgu ar-lein yn ystod y pandemig, a sut mae presenoldeb wedi cael ei effeithio, gan gynnwys trafod sut mae'r Cyngor yn gweithio er mwyn gwella'r cyfraddau presenoldeb ledled Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ceisio deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfranogiad ym maes Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r heriau unigryw y mae'r rhieni a'r disgyblion yn eu hwynebu o ganlyniad i ddysgu o bell.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'r Aelodau am eu gwaith caled a'u cyfraniad yn ystod yr hyn a fu'n flwyddyn hynod heriol. Diolch hefyd i'r Is-gadeirydd, y Cyngorydd Julie Edwards, am ei chefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.

Roedd gwaith arall y **PWYLLGOR CRAFFU - PLANT A PHOBL IFAINC** yn cynnwys:

- Mabwysiadu Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol
- Adroddiad am yr Adroddiad Rhianta Corfforaethol Blynyddol
- Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â'r adolygiad i Wasanaethau Plant Anabl
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Adroddiad Gwasanaeth Cwnsela Eye to Eye
- Rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (2018) ar waith yn Rhondda Cynon Taf.
- Presenoldeb Disgyblion ac Absenoldebau Heb Eu Hawdurdodi (yn unol ag atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio)
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc (CAMHS)



**Y Cyngorydd R. Yeo**

## **Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles**

Mae'r **Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles** yn chwarae rôl allweddol wrth asesu cyflawniad a gwaith datblygu polisi ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd o Ofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Hamdden ac Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, fel sydd wedi'i nodi yn ei **Gylch Gorchwyl**.

### **Ymateb i COVID-19 – Gwasanaethau i Oedolion**

Cafodd yr adroddiad/diweddariad cyntaf o lawer ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar **14 Medi 2020**. Roedd hyn yn cynnwys amlinelliad o ymateb y Cyngor i bandemig COVID-19 o safbwynt y Gwasanaethau i Oedolion. Daeth y mater yma'n ganolbwynt o ran gwaith y pwyllgor yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020/21. Roedden ni wedi gofyn am ddangosyddion ystadegol perthnasol er mwyn monitro cyflawniad a chynlluniau gweithredu'r gwasanaeth hanfodol yma yn gywir ac yn unol â Chynllun Corfforaethol 2020/21 y Cyngor.

Yn ogystal â chraffu ar gynlluniau sydd ar waith ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19, roedden ni wedi cynnig bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth ar bwysau'r Gaeaf ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut roedd darparwyr a phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu gofal a gwasanaethau o safon yn ystod cyfnod heriol ac i sicrhau bod y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cael ei ddiweddar'u'n gyson, yn cael ei rannu'n gywir.

**Deilliant** - Cyflawni gwaith craffu pellach mewn perthynas â goruchwyllo a chydlynu'r broses adfer ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion.

### **Ymateb i COVID-19 - Cymorth i Gynhalwyr Sy'n Oedolion**

O ganlyniad i bryderon y Pwyllgor mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael i gynhalwyr sy'n oedolion a'r lefel uwch o gydnerthedd a ddangoswyd ganddyn nhw a'u teuluoedd, sydd yn ei dro wedi arwain at gynnydd yn y galw ar y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, derbynion ni adroddiad yn ystod ein cyfarfod ar **8 Chwefror 2021** yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer cynhalwyr sy'n oedolion trwy gydol y pandemig. Fe wnaethon ni graffu ar waith Cynllun Cynnal y Cynhalwyr Rhondda Cynon Taf, ynghyd â data o ddarpariaeth y gwasanaethau oriau dydd, gwasanaethau seibiant byr a gwasanaethau seibiant ffurfiol.

Mae gwasanaethau seibiant wedi parhau i gefnogi cynhalwyr di-dâl, lleoliadau preswyl a gofal nyrsio, gofal seibiant tymor byr ac mae'r gwasanaethau oriau dydd i oedolion ag anabledau dysgu neu dementia wedi parhau i weithredu er gwaetha'r cyfyngiadau.

**Deilliant** - Mae'r Pwyllgor wedi ymrwmo i graffu ar y mater yma trwy sicrhau bod cryfder a gwydnwch bob cynhaliwr yn parhau i gael eu cefnogi mewn modd addas drwy gydol y pandemig.

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Ymateb i COVID-19 - Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch Y Cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Faterion Iechyd a Lles wedi ymrwmo i adolygu gwaith y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd. Rhoddwyd trosolwg o ymateb y gwasanaeth rheoliadol i'r pandemig ar **12 Ionawr 2021**. Roedd y trosolwg yma'n cynnwys y Gwasanaethau Rheoliadol (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Trwyddedu, Diogelwch y Cyhoedd), Gwasanaeth Digartrefedd a'r Gwasanaeth Cofrestru. Roedd hefyd yn cynnwys Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau Cwm Taf Morgannwg sy'n cael ei weithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ran y Rhanbarth. Er mwyn sicrhau bod gwaith monitro'r galw ar yr unigolion hynny sy'n agored i niwed yn ein cymunedau yn cael ei gyflawni, roedden ni wedi gofyn am **ddiweddariad** ynglŷn â Strategaeth Ddigartrefedd 2018-2022 er mwyn adolygu'r Cynllun Gweithredu ble'n addas.

Roedden ni hefyd wedi adolygu a chymeradwyo'r broses o adnewyddu **Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a Hope Rescue**, sy'n darparu cyfleuster cynelu cŵn ar gyfer y Cyngor. Roedd yna dystiolaeth o broses mwy cadarn a gwelliannau parhaus o ran y ddarpariaeth ers i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael ei roi ar waith am y tro cyntaf, ac roedd hyn wedi arwain at gymeradwyo'r cynnig i adnewyddu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

**Deilliant** - Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Hope Rescue a'r Awdurdod Lleol.

---

Hoffwn i ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol yma, yn enwedig yr Is-gadeirydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans am ei chyfraniad hi hefyd.

Roedd gwaith arall y **PWYLLGOR CRAFFU - IECHYD A LLES** yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.





**Y Cyngorydd S. Bradwick**

## **Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant**

Mae'n bleser gen i gyflwyno rhywfaint o waith y **Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant**. Rôl y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant, fel sydd wedi'i nodi yn ei **Gylch Gorchwyl**, yw craffu ar faterion sy'n effeithio ar Wasanaethau Cymuned allweddol CBSRhCT.

### **Ymateb i COVID-19 - Gwastraff ac Ailgylchu**

Yn ystod y broses o bennu'r Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu blaenoriaethu a pharchu'r sefyllfa unigryw eleni. Roedden ni wedi cydnabod effaith anochel COVID-19 ar y Gwasanaethau Rheng Flaen ac felly wedi blaenoriaethu ymateb y Cyngor i'r pandemig a sut roedd hyn wedi effeithio ar dargedau Llywodraeth Cymru sy'n gofyn bod Cymru'n ailgylchu 70% o'i gwastraff erbyn 2025. Roedd yr Awdurdod wedi mynd tu hwnt i'r targed a gafodd ei bennu gan Lywodraeth Cymru, sef 64%, gan sicrhau bod 68% o'i wastraff yn cael ei ailgylchu. Mae hyn 1/2% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dyst i gydnerthedd ac ymrwymiad ein staff a'n gweithdrefnau casglu a gwaredu.

Wrth i'r Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned ailagor, gan weithredu mesurau diogelwch llym i gydymffurfio â deddfwriaeth COVID-19, roedd staff wedi ymateb i'r newid mewn deddfwriaeth ac addasu'i ffordd o weithio i sicrhau bod modd i drigolion fynychu'r Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned yn ddiogel er mwyn cael gwared ar wastraff. Roedd ymrwymiad y trigolion tuag at ailgylchu yn glir. Yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig 2020, wythnos y Nadolig a'r wythnos ganlynol, roedd swm y gwastraff ailgylchu/gwastraff bwyd a gafodd ei gasglu wedi dyblu o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Casglwyd dros 400 tonnall o wastraff bwyd a 450 tonnall o wastraff ailgylchu mewn diwrnod, cafodd y gwastraff yma ei gasglu dros gyfnod o wythnos yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn y ffigur gwastraff gweddilliol yn ystod y cyfnod hwn. Da iawn i'n trigolion sydd yn amlwg wedi ymrwmo i gefnogi'r Awdurdod i gyflawni targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru sydd, yn y pen draw, yn anelu at sicrhau dyfodol ddiwastraff erbyn 2050.

**Deilliant** - Mae cyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn flaenoriaeth i'r Awdurdod ac wrth bennu ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 byddwn ni'n ystyried y targedau yma. Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion a busnesau lleol i herio'u gweithdrefnau ailgylchu a gwastraff, a'u gwella nhw, er mwyn cefnogi'r Awdurdod. Rydyn ni'n awyddus i gyfleu neges sy'n pwysleisio bod gan bawb gyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r mater yma.



# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Gwaith cyn y cam craffu: Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n ymwneud â Mesurau Rheoli Cŵn

Ar **23 Medi 2020**, roedd y Pwyllgor wedi cyflawni gwaith cyn y cam craffu ar y cynnig i ymestyn ac amrywio gorchmyn diogelu manau cyhoeddus CBS Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn. Roedden ni wedi trafod deilliannau'r ymgynghoriad â'r cyhoedd sy'n ymwneud â dau Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â Mesurau Rheoli Cŵn yn Rhondda Cynon Taf. Cynigwyd y dylai'r Gorchmynion gael eu hadnewyddu am 3 blynedd bellach er mwyn sicrhau bod y manteision sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gorchmynion o ran mesurau rheoli cŵn yn parhau ac i sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r nifer fach o bobl sy'n parhau i anwybyddu'r rheolau.

**Deilliant** - Penderfynodd yr Aelodau na fyddai dulliau gorfodi pellach yr un mor effeithiol ag addysgu'n trigolion. Roedd yr Aelodau felly wedi awgrymu bod yr Awdurdod yn gweithio'n agos â'n hysgolion i addysgu'n plant a phobl ifainc am ba mor bwysig yw hi i fod yn berchennog cyfrifol a deall y peryglon iechyd posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â glanhau ar ôl eu cŵn.

Mae'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant wedi cyflawni gwaith sylweddol o ran effaith COVID-19 ar ein gwasanaethau ac rydyn ni'n dymuno estyn diolch i'n holl staff am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u hymdrechion wrth sicrhau bod gwasanaethau hollbwysig yn parhau i gael eu darparu i drigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Hoffwn i ddiolch i Is-gadeirydd y Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Tina Williams, a holl aelodau'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod y 12 mis diwethaf wrth i ni barhau i sicrhau ein bod ni wedi craffu ar faterion sydd o bwys i'r cyhoedd yn ystod flwyddyn yma.

Roedd gwaith arall y **PWYLLGOR CRAFFU - CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMUNEDAU A FFYNIANT** yn cynnwys:

- Effaith COVID-19 ar Ganolfannau Ailgylchu yn y Gymuned
- Cyfleuster Rheoli Gwastraff Bryn Pica
- Effaith COVID-19 ar Weithredu'r Adran Parciau a Chefn Gwlad
- Uned Gorfodi Gofal y Strydoedd
- Y Bartneriaeth Orfodi - Parcio
- Newidiadau i Gasgliadau Gwastraff Gwyrdd



**Y Cyngorydd M. Powell**

## **Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad**

A minnau'n Gadeirydd y **Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad**, rydw i'n falch o adrodd ar flwyddyn arall sydd wedi bod yn llawn cynnydd, er bod hynny wedi bod o dan amgylchiadau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Rydyn ni wedi dal ati i herio cynigion a gwariant cyllideb y Cyngor yn drylwyr drwy gydol y pandemig, yn ogystal â chraffu ar gyflawniad y Cyngor yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn ein **cylch gorchwyl**.

### **Adolygiad o'r Strategaeth Dwristiaeth**

Ym mis Rhagfyr 2020, derbynion ni ddiweddariad ar y **Strategaeth Dwristiaeth Ddrafft** yn sgil pandemig COVID-19. O ganlyniad i effaith sylweddol COVID-19 ar y sector, roedd y pwyllgor yn awyddus i ddeall sut roedd y Cyngor yn gweithio gyda'r sector er mwyn ei helpu i oresgyn heriau'r pandemig ac edrych tua'r dyfodol, gan gydnabod pwysigrwydd y sector yma o ran cyflawni amcanion cynllun corfforaethol y Cyngor. Roedd yr Aelodau'n falch iawn o'r cynnydd sy'n dal i fynd rhagddo a'r amcanion a nodwyd yn y cynllun drafft.

### **Gwaith cyn y cam craffu: Adroddiadau Chwarterol ar Gyflawniad y Cyngor**

Aeth y pwyllgor ati i graffu ar yr **Ymgynghoriad ar Gyllideb 2021/22**, yn rhan o'i swyddogaeth ymgynghorol ac yn unol â'i gylch gorchwyl.

**Deilliant** - Cafodd adborth, ymholiadau a heriau o'r gwaith craffu eu hymgorffori yng Ngham 1 o'r adroddiad ar yr Ymgynghoriad, yn ogystal â'r adborth a gafwyd gan bob rhanddeiliad arall. Cafodd y rhain eu trafod gan y Cabinet wrth iddo lunio Strategaeth Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Gwnaethon ni waith cyn y cam craffu ar Strategaeth Gyllideb Refeniw 2021/22 **ar ddechrau 2021**. Yn benodol, gwnaethon ni sylwadau am **Strategaeth Gyllideb Arfaethedig y Cabinet ar gyfer y materion canlynol: Treth y Cyngor, Cyllideb Ysgolion, Effeithiolrwydd a Buddsoddiadau Ychwanegol**.

**Deilliant** - Rhoddodd hyn gyfle i aelodau nad oeddent yn rhan o'r adain weithredol i roi adborth ar y cynigion, a chafodd y rhain eu trafod gan y Cabinet cyn iddo argymhell y Strategaeth i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

## Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

### Ymateb i COVID-19 - Trawsnewid Digidol

Yn yr adroddiad blynyddol y llynedd, cyfeiriais at ein hadolygiad o **Strategaeth Ddigidol 2017-20**, ac roedd hi'n briodol ein bod ni wedi derbyn diweddariad gan **Wasanaethau Digidol a TGCh y Cyngor**, a fu'n egluro'r gefnogaeth a roddwyd i wasanaethau'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf. Roedd y Pwyllgor Craffu yn cydnabod gwerth cyflawniad llwyddiannus Strategaeth Ddigidol y Cyngor ar gyfer 2017/20, a fu'n gymorth o ran ymateb yn gyflym i COVID-19 drwy alluogi staff i weithio gartref, cyfarfodydd rhithwir ar gyfer Aelodau a Swyddogion, gwaith trawsnewid ysgolion drwy hwb a datblygu prosesau digidol ar gyfer trigolion RhCT, yn ogystal â chefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu a'r rhaglenni profi/brechu.

**Deilliant** - Mae ymrwymiad parhaus y bydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad yn rhan o'r ymgynghoriad ar Strategaeth Ddigidol y Cyngor ar gyfer 2021, ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y cynnydd cadarnhaol sydd wedi mynd rhagddo yn ystod y pandemig yn cael ei ymgorffori yn nhrefniadau gwaith y dyfodol.

### Craffu ar Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau 2019-21

Yn rhan o'n cylch gorchwyl, roedden ni wedi adolygu'r Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer 2019-21 er mwyn asesu sut mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cyflawni'u blaenoriaethau trwy gydol pandemig COVID-19 er mwyn cynnig cymorth i ddysgwyr, y rhai sy'n chwilio am waith a chyflogwyr yn rhan o nifer o raglenni cymorth cyflogaeth, rhaglenni llwybr i waith a darpariaeth ar-lein. Roedd y Pwyllgor Craffu wedi nodi effaith hir dymor COVID-19 ar fusnesau a chymunedau a pha mor bwysig yw hi bod y gwasanaethau yma'n addasu'u darpariaeth i ddenu dysgwyr newydd a chyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau cyfredol er mwyn datblygu sgiliau a darparu cymorth cyflogaeth.

**Deilliant** - Wrth i ni fynd ati i bennu ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22, byddwn ni'n talu sylw i'r Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau, yn enwedig o ran datblygu cynllun adfer yn dilyn COVID-19 a'r cynigion i ddatblygu cynllun newydd ar ddiwedd 2021.

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

Wrth gwrs, rhaid i mi ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad am eu gwaith caled a'u hymrwymiad parhaus wrth herio cyflawniad y Cyngor er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer ein trigolion. Diolch hefyd i'r Is-gadeirydd, Graham Thomas, am ei gymorth drwy gydol y flwyddyn.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am ddal ati i gefnogi gwaith y Pwyllgor bob amser.

Roedd gwaith arall y **PWYLLGOR CRAFFU - CYLLID A CHYFLAWNIAD** yn cynnwys:

- Y Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau 2019-21
- Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2021/22
- Adroddiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22
- Cynnydd yn erbyn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23
- Trafod Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor - 2020/21 i 2023/24
- Adroddiad Monitro Blyneddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar newidiadau arfaethedig i Restr Rheoliad 123
- Dull gweithredu 'digidol yn ddiodyn' y Cyngor

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21

## Prif Nodau'r Pwyllgorau Craffu:

- Sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer trigolion RhCT
- Ychwanegu gwerth at y ffordd o wneud penderfyniadau
- Gweithio gyda'r Cabinet mewn modd adeiladol
- Cyflwyno heriau cadarnhaol fel ffrind beirniadol
- Defnyddio tystiolaeth gadarn i atgyfnerthu canfyddiadau
- Dysgu oddi wrth eraill

## Y Ffocws ar gyfer 2021/22:

- Parhau i gynnal arfer da'r Cyngor o ran cyflawni gwaith cyn y cam craffu ar gyfer penderfyniadau hanfodol, a sicrhau bod y Pwyllgor yn dal ati i ymgysylltu â'r Aelod Cabinet/deiliad portffolio perthnasol er mwyn nodi cyfleoedd i graffu yn y dyfodol. Bydd hyn yn unol â chynigion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).
- Datblygu'r pecyn cymorth Craffu i ddarparu canllawiau ymarferol a hawdd eu dilyn sy'n rhoi eglurder i Aelodau.
- Datblygu cymorth pellach i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu, gan ganolbwyntio ar hunanarfarnu; sgiliau cadeirio; craffu ar ddata cyflawniad; craffu ar faterion cyllid; a datblygu cyfleoedd e-ddysgu drwy'r Porth i Aelodau.
- Sicrhau bod y Pwyllgorau Craffu yn cynnal arferion hunanarfarnu o leiaf unwaith y flwyddyn (wrth baratoi i lunio'r Adroddiad Blynnyddol).
- Sicrhau bod ein trefniadau o ran craffu yn dal ati i gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac yn canolbwyntio ar yr angen i leihau'r anghydraddoldebau sy'n dod yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Ystyried dulliau mwy arloesol ac effeithiol o graffu yn sgil pandemig COVID-19, gan fanteisio'n llawn ar y dechnoleg sydd ar gael.
- Annog y cyhoedd i wneud rhagor o ran cyfrannu at y broses ddemocrataidd drwy bennu rhaglenni gwaith a darlledu cyfarfodydd ar-lein.

*Bydd y Gweithgor Craffu ar Hysbysiadau Cosb Benodedig, sydd â'r dasg o graffu ar effaith y mae rhoi'r Hysbysiadau Cosb Benodedig ar waith wedi'i chael ar Bresenoldeb a Lles Iedled y Fwrdeistref Sirol, yn cyflwyno'i ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Cabinet yn ystod Blwyddyn 2021/22 y Cyngor.*